



we are
cycling
UK

Cymru

Symud i fyny gêr – maniffesto ar gyfer seiclo

Etholiad Senedd 2021

cyclinguk.org

Gweledigaeth ar gyfer seiclo yng Nghymru

Cymru lle mae mwy o deithiau pob dydd yn cynnwys teithio llesol, mae cefn gwlad yn fwy hygyrch, mae'r aer yn lanach, ac mae ein hiechyd a'n lles yn cael blaenoriaeth.

Mae'n bryd symud i fyny gêr

Dylai seiclo fod i bawb – o blentyn sy'n dysgu seiclo gan ddefnyddio beic balans i berson hŷn sy'n ymweld â ffrindiau ar gefn e-feic; o rywun sy'n cymudo pob dydd i berson anabl sy'n defnyddio beic llaw fel cymorth symudedd. Diben seiclo yw bod yn gorfforol egnïol wrth deithio am ba bynnag rheswm a ddewiswn.

Mae'r argyfwng hinsawdd a'r adferiad ôl-Covid yn heriau y mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â nhw. Gan fod trafnidiaeth yn gyfrifol am 15% o'n hallyriadau sy'n newid yr hinsawdd, rhaid i seiclo a darpariaeth teithio llesol fod yn rhan o'r ateb i'r problemau hyn.

Yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, gwelsom gynnydd aruthrol mewn seiclo a cherdded wrth i bobl gael eu hannog i gyflawni gweithgarwch corfforol a gweld bod eu ffyrdd lleol yn llai prysur ac yn teimlo'n fwy diogel. Profodd hyn y bydd pobl yn dewis seiclo pan fyddant yn teimlo'n ddiogel.

Mae'n bryd yn awr i symud i fyny gêr ac adeiladu'r seilwaith seiclo, gwella mynediad i gefn gwlad, a buddsoddi mewn rhaglenni i newid ymddygiad, er mwyn i fwy o bobl allu seiclo a manteisio ar ei fuddion. Gyda'n gilydd, gallwn greu Cymru iachach, hapusach, mwy deniadol a charbon isel er ein lles ni heddiw ac er lles cenedlaethau'r dyfodol.



Ein gofynion i Lywodraeth nesaf Cymru:

£ Gwariwch yr arian! Buddsoddi

1. Gwario o leiaf 10% o'r gyllideb drafndiaeth ar deithio llesol - seiclo a cherdded, gan roi'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ar waith a gwneud teithio llesol yn flaenoriaeth yn yr holl benderfyniadau ynghylch trafndiaeth a chymdogaethau.
2. Ariannu rhaglen hyfforddiant seiclo safonau cenedlaethol i Gymru gyfan – rhaid i hyfforddiant seiclo am ddim fod yn rhan o fywyd ysgol pob plentyn ac ar gael yn helaeth i oedolion o bob gallu.
3. Buddsoddi mewn prosiectau ymarferol ac arloesol i newid ymddygiad sy'n chwalu'r rhwystrau i seiclo. Rhaid i feddu ar feic pedala neu allu defnyddio un fod yn opsiwn i bawb. I wneud hyn, mae angen buddsoddi mewn cynlluniau llogi beiciau, grantiau a benthyciadau ar gyfer e-feiciau, a phrosiectau ailgylchu beiciau, i gyd yn cael eu cefnogi gan brosiectau a mentrau i newid ymddygiad er mwyn rhoi hyder i bobl, eu galluogi i fod yn fwy egniol, a gwella iechyd a lles pawb.

🚲 Rhowch hyn ar waith! Cyflawni

4. Sicrhau bod awdurdodau cenedlaethol a lleol yn cymhwyso canllawiau dylunio'r Ddeddf Trafndiaeth Lesol yn eu holl gynlluniau priffyrdd a thraffig, datblygiadau newydd a chynlluniau cynnal a chadw priffyrdd, gan gynorthwyo cynghorau trwy ddarparu cyllid a hyfforddiant er mwyn datblygu rhwydweithiau teithio llesol cynhwysfawr i bawb.
5. Cynyddu nifer y cymdogaethau gwerth eu byw ynddynt yng Nghymru trwy hybu'r broses o gyd-gynhyrchu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i symud pobl, lleihau'r ddibyniaeth ar geir a sicrhau bod y polisïau cynllunio, trafndiaeth, iechyd a datblygu yn rhoi pobl yn gyntaf.
6. Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer seiclo a cherdded i oedolion a phlant, gan sicrhau y gellir mesur llwyddiant yn erbyn targedau trwy arolygon o ansawdd da, a bod Llywodraeth Cymru'n atebol am gyflawni yn erbyn targedau trwy Fwrdd Teithio Llesol wedi'i gyfnerthu.
7. Sicrhau Deddf Aer Glân o fewn y 100 diwrnod cyntaf a sefydlu Parthau Aer Glân o amgylch holl ysgolion Cymru.



🏠 Ledled Cymru: Gwledig a threfol

8. Buddsoddi mewn system trafndiaeth gynaliadwy integredig ledled Cymru a rhoi blaenoriaeth i deithio llesol fel ffordd o gyrraedd hybiau trafndiaeth. Caniatáu cludo beiciau pedala ar drenau a chynyddu'r lle sydd ar gael iddynt, a darparu parcio diogel i feiciau mewn gorsafoedd, er mwyn helpu i wneud seiclo'n rhan o deithiau pob dydd a diwrnodau allan, gan leihau'r ddibyniaeth ar geir.
9. Dylai pob ysgol fod â chynllun teithio a chymorth ar gael i gyflwyno strydoedd ysgol. Rhaid i bob ysgol newydd yr 21ain ganrif roi blaenoriaeth i fynediad trwy deithio llesol, a dylai mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gynnwys cynlluniau ar gyfer llwybrau beicio diogel i ysgolion er mwyn i blant allu seiclo bob dydd.
10. Cyflwyno 20 milltir yr awr fel y terfyn cyflymder awtomatig ar ffyrdd trefol a darparu adnoddau ar gyfer rhoi gwybod i bawb am y newidiadau.
11. Cydnabod gwerth seiclo i'r economi wledig a'r economi twristiaeth ac i les y genedl trwy wella mynediad i'r awyr agored, cysylltu cymunedau ac agor cefn gwlad i bobl.



Cymru



Pwy ydym ni

Elusen yw Cycling UK sydd wedi hyrwyddo achos seiclo ers 142 o flynyddoedd ac sydd â mwy na 70,000 o aelodau, 2,000 ohonynt yng Nghymru. Yng Nghymru, rydym yn ymgyrchu dros bolisiâu a buddsoddiad a fydd yn annog mwy o bobl i gael budd o seiclo. Rydym yn credu y dylai pawb gael cyfle i seiclo, er mwyn byw bywyd iach, egnïol a charbon isel.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwenda Owen:
gwenda.owen@cyclinguk.org

cyclinguk.org

Cyclists' Touring Club (CTC) cwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yn Lloegr rhif: 25185
Wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif elusen: 1147607 ac yn yr Alban rhif elusen: sco42541